

Digwyddiadau 2022 – Rhaglen Gerddoriaeth



Dydd Sadwrn 3 Medi a dydd Sul 4 Medi

Bydd y rhaglen gerddoriaeth ymlaen rhwng 11am a 5pm ar y ddau ddiwrnod gyda'r rhaglen ar brif lwyfan y Tŵr Cam ym maes parcio'r Twyn yn parhau tan 8pm ar ddydd Sadwrn yn unig. O 9am tan 11am, bydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae dros y system PA ym mhob ardal i ymwelwyr nes bod y perfformiadau byw yn dechrau!

Ardal 1 - Llwyfan y Foneddiges Werdd - Cardiff Road / Kings Arms

Dydd Sadwrn

11.00am – 12.15pm Genevieve Gyseman

12.30pm – 1.45pm Solo Project (Deuawd)

2.00pm – 3.15pm Ragsy

3.30pm – 5.00pm Soldiers of Monochrome (Triawd)

Dydd Sul

11.00am – 12.15pm Richard Dinning

12.30pm – 1.45pm Katie Lou

2.00pm – 3.15pm Juno (Deuawd)

3.30pm – 5.00pm Spencer Flay

Ardal 2 – Llwyfan Gilbert de Clare – Canol y Dref / Glanmors

Dydd Sadwrn

11.00am – 12.15pm Omega Dau

12.30pm – 1.45pm Frankie Wesson (Deuawd)

2.00pm – 3.15pm Tobias Robertson

3.30pm – 5.00pm Moonstorm

Dydd Sul

11.00am – 12.15pm Mansel Davies

12.30pm – 1.45pm Richard Robling

2.00pm – 3.15pm Ragsy

3.30pm – 5.00pm Andy & Gos

Ardal 3 - Prif Lwyfan y Tŵr Cam – Maes Parcio'r Twyn

Dydd Sadwrn

11.00am – 12.30pm The Blues Sisters

12.55pm – 2.25pm Nerys & The Soul Traders

2.50pm – 4.20pm This River

4.45pm – 6.15pm Buck Shizz

6.30pm – 8.00pm VHS Band

Dydd Sul

11.00am – 12.00pm Pyramid

12.25pm – 1.25pm Moon Storm Band

1.50pm – 3.05pm Cakehole Presley

3.30pm – 5.00pm The Apple Tree Theory

Ardal 4 – Llwyfan Cymunedol Cwrt y Castell – Canolfan Siopa Cwrt y Castell

Dydd Sadwrn

11.00am – 11.45am Coal River County Boys

12.00pm – 12.45pm Foxglove

1.00pm – 1.45pm The Honest Poet

2.00pm – 2.45pm Mojo Jnr

3.00pm – 3.45pm Primitive Soul

4.00pm – 5.00pm Something Something Avocado

Dydd Sul

11.00am – 12.00pm Cerddoriaeth Gymunedol RecRock

12.15pm – 12.55pm Rock Choir

1:10pm – 1:40pm Kinz

2.00pm – 2.30pm Laura Jazmyn

2.55pm – 3.55pm Nookee

4.15pm – 5.00pm

More Than a Song Choir

Gwybodaeth am yr Artistiaid

Genevieve Gyseman



Dilynwch hi ar Facebook:

www.facebook.com/geneviev.gyseman

Dolen i'w cherddoriaeth: <https://heyimgeneviev.com>

Cantores/cyfansoddwraig o Gymru yw Genevieve sydd i'w gweld yn aml yn canu yn y stryd ar Heol y Frenhines a'r Aes yng Nghaerdydd. Mae llais Genevieve yn jasaidd ac yn llawn teimlad ac mae hi'n canu gitâr gwerin yn dyner; y canlyniad yw sain hudolus ac emosiynol sy'n torri i'ch calon chi wrth roi gwên ar eich wyneb chi rywsut.

Solo Project



Dilynwch nhw ar Facebook: www.facebook.com/soloprojectsonwriters

Dolen i'w cerddoriaeth: [**http://solo-project.bandcamp.com**](http://solo-project.bandcamp.com)

Mae Solo Project, deuawd o dde Cymru, yn cynnwys Dave ar leisïau a gitâr, ac Ade ar gitâr, piano a lleisïau. Mae'r pâr yn perfformio'n rheolaidd mewn lleoliadau ledled y Deyrnas Unedig ac maen nhw hefyd wedi sefydlu partneriaeth ysgrifennu caneuon llwyddiannus. Disgwylwch glywed rhai o'u cyfansoddiadau gwreiddiol nhw, ochr yn ochr â chaneuon clasurol gan rai fel The Beatles, David Bowie, The Verve ac U2, gydag ambell gân syrannigswyl wedi'i thafu i mewn hefyd! Fel aelodau allweddol o'r band 'Casual Six', mae criw'r Solo Project hefyd wedi cyrraedd y llwyfan mewn rhai gwyliau mawr yn ddiweddar, gan gefnogi pobl fel The Fratellis, The Proclaimers a Basement Jaxx, ac maen nhw newydd ddychwelyd o gefnogi Reef.

Ragsy



Dilynwch ef ar Facebook: www.facebook.com/Ragsy

Dolen i'w gerddoriaeth:

www.facebook.com/watch/live/?ref=watch_permalink&v=650118015622835
<http://www.facebook.com/watch/live/?ref=watch_permalink&v=650118015622835>

Yn ganwr-gyfansoddwr/cyflwynydd sydd wedi'i leoli yng Nghymru, mae Ragsy yn gweithio'n galed i ddod yn artist dwyieithog sefydledig. Mae'n Gymro balch ar ei daith i ddysgu'r Gymraeg yn y gobaith o fod yn rhugl un diwrnod. Gan siarad a chanu, yn ei waith ysgrifennu, mae Ragsy yn storiwr naturiol. Mae pob cân yn mynd â chi ar daith drwy ei fywyd a'i feddyliau gyda'i lais angerddol, twymgalon, wedi'u tanategu gan rythm ysgafn ond solet o'i gitâr acwstig. Ymddangosodd Ragsy ar 'The Voice UK' yn 2013 a chafodd ei fentora gan gydwladwr Syr Tom Jones. Roedd hefyd yn un o wyth a gyrhaeddodd rownd derfynol 'Can i Gymru / Song for Wales 2018'. Mae ei albymau 'Ouch!!!' ac 'One More for The Road' ar gael nawr ar gwyno ddisg ac o'r holl brif wefannau lawrlwytho a ffrydio. Mae wedi cefnogi artistiaid sefydledig fel The Proclaimers, Steve Balsamo, Rosalie Deighton, James Dean Bradfield, Hue and Cry a Max Boyce.

Soldiers of Monochrome



Dilynwch nhw ar Facebook:

<https://www.facebook.com/soldiersofmonochrome>

Mae Soldiers of Monochrome yn fand hip hop hen ysgol o dde Cymru. Mae eu cerddoriaeth yn unigryw ac yn gadarnhaol. Maen nhw'n ysgrifennu, cynhyrchu, a recordio eu holl gerddoriaeth eu hunain (ond hefyd yn gwneud rhai caneuon pobl eraill). SOM yw Lo-Ryder, Wired a DJ Kromatic ac maen nhw wedi bod gyda'i gilydd ers rhai blynyddoedd bellach ar ôl perfformio dros 300 o sioeau yn y cyfnod hwnnw, o wyliau i'r teulu i glybiau nos, a phopeth yn y canol. Maen nhw wedi chwarae sioeau ledled y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Mae disgwyl i'r band hedfan i Nashville yn ddiweddarach eleni ar gyfer lluo o sioeau ac maen nhw ar fin perfformio ym Mhrifysgol Swydd Stafford ar gyfer diwrnod cyflwyno dan arweiniad y diwydiant cerddoriaeth. Mae'r triawd yn gweithio ym myd cerddoriaeth ac yn rhedeg prosiectau cerddoriaeth ledled de Cymru i helpu pobl ifanc yn eu harddegau ac i ysbrydoli a chyrraedd y rhai anoddaf eu cyrraedd yn ein cymuned ni, gan roi rhywbeth cadarnhaol iddyn nhw anelu ato. Mae SOM yn berfformiad a fydd, siŵr o fod, yn brofiad anhygoel.

Richard Dinning



Dilynwch ef ar Facebook: <https://www.facebook.com/Acoustic-i-Richard-Dinning-775059235898826>

Dolen i'w gerddoriaeth:

www.facebook.com/watch/live/?ref=watch_permalink&v=1085245668561982

Mae Richard yn cynnig ystod amrywiol o ganeuon gyda'i lais a gitâr acwstig gan ganu caneuon pobl eraill o'r degawdau blaenorol a rhai gwreiddiol hynod sy'n cynnig cipolwg ar ei fywyd. Y cyfan wedi'i wneud gyda llawer iawn o hiwmor a phedal harmoni!

Katie Lou



Dilynwch hi ar Facebook: www.facebook.com/katielouofficial

Dolen i'w cherddoriaeth:

www.facebook.com/katielouofficial/videos

Cantores a chyfansoddwraig caneuon Americanaidd o Sir Fynwy, de Cymru, yw Katie Lou ac mae wedi bod yn canu ledled y Deyrnas Unedig am y 5 mlynedd diwethaf fel artist unigol. Mae Katie Lou yn dod â dyfnder a theimlad i bob cân am gyfeillgarwch, torcalon, iechyd meddwl a hunan-ystyriaeth. Gan gychwyn ar ei thaith gerddorol yn 9 oed, mae Katie bellach wedi rhyddhau EP acwstig a nifer o recordiau sengl ac mae ei halbwm cyntaf ar y ffordd. Yn fwyaf diweddar, cafodd hi gontract gyda Dirty Carrot Records, Casnewydd, sydd wedi ei helpu i lywio'r diwydiant ac rhyddhau cerddoriaeth gan gael slotiau mewn gwyliau fel Between the Trees, Landed, Out and Wild a Big Love. Gallwch chi weld Katie unrhyw le, o briodasau i'ch bar lleol chi, gan ei bod hi'n weithgar iawn yn y gymuned gerddoriaeth, felly, cadwch eich llygaid chi ar agor am sioe yn eich ardal chi!

Juno



Dilynwch nhw ar Facebook: **www.facebook.com/junoacousticduo**

Dolen i'w cerddoriaeth: www.facebook.com/junoacousticduo/videos

Deuawd jiwcbocs acwstig gyda'r lleisiau a gitâr o'ch holl ffefrynnau, o Etta James i Arctic Monkeys! Mae'r deuawd gitâr acwstig a lleisiau, Maddie a Dan Jones, sy'n dod o Ystrad Mynach a Rhisga, wedi galw eu hunain yn 'Juno' oherwydd eu bod yn cael eu clywed yn aml mewn gigs, "Juno know this song?" Mae Juno yn cynnig ystod eang o ganeuon, o Abba i Amy Winehouse, ac maen nhw hefyd mewn bandiau fel The Bandaoke Show, The Pandas, Maditronique a Slipped Disco. Mae Dan a Maddie hefyd yn ymwneud â cherddoriaeth gymunedol ac yn cynnal gweithdai gyda RecRock a Release the Sounds.

Spencer Flay



Dilynwch ef ar Facebook:

<https://www.facebook.com/spencerflaymusic>

Dolen i'w gerddoriaeth:

<https://open.spotify.com/artist/46lxxhJGbFfxwNEUu0GKfUQ>

Mae Spencer wedi gwneud yr iwcaili y peth mwyaf cŵl ar y llawr dawnsio gyda'i guriadau cryf a'i riffs cofiadwy. Yn flaenorol yn fwy adnabyddus fel gyrrwr craen yn Nociau Bryste, mae wedi "codi" mewn enw da ledled y de-orllewin. Gan gymryd sain fodern a llenwi pob curiad ohoni â hiwmor a ffraethineb Bryste, mae'n mynd y tu hwnt i ail-greu'r caneuon arloesol ar ei album *Sound Waves*, gan ei gymysgu â thraciau ochr-B, tynnu coes o safon fyd-eang, a swp bach o ffefrynnau'r siartiau wedi'u hailwneud.

Omega Two



Dilynwch nhw ar Facebook:

<https://www.facebook.com/omegatwoduo>

Dolen i'w cerddoriaeth:

<https://www.facebook.com/omegatwoduo/videos>

Omega Two yw Jane Williams (Van Morrison, Wild Willy Barrett) ar leisiau/iwcalili/piano a Pete Mathison (Ray Davies yn y 90au) ar y gitâr. Mae Omega Two yn chwarae cyfuniad o jazz llyfn, alawon poblogaidd a chaneuon i'w cydganu i wneud i chi deimlo'n rhan o'r ŵyl! Maen nhw'n chwarae mewn gwahanol lefydd yn yr ardal – The Dead Canary, The Book Club, Rummer Tavern a Cafe Jazz ochr yn ochr â mewn gwyliau sefydledig fel Jazz Aberhonddu ac Aberjazz yn Abergwaun.

Frankie Wesson Duo



Dilynwch nhw ar Facebook:

www.facebook.com/frankiewessonmusic

Dolen i'w cerddoriaeth:

www.facebook.com/watch/?v=193317335825978

Dechreuodd y gantores-gyfansoddwraig o dde Cymru, Frankie Wesson, ysgrifennu caneuon a pherfformio yn ei thref enedigol, Y Fenni, yn 16 oed. Mae ei chaneuon sinematig yn tynnu

ysbrydoliaeth o'i phrofiadau personol o hiraeth chwerwfelys, cariad heb ei dalu'n ôl, angst yn yr arddedau, a'r realiti cymhleth o dyfu i fyny'n LHDT. Wedi'i magu ar artistiaid fel Alanis Morissette, Eva Cassidy, a Stevie Nicks, mae Wesson hefyd yn cael ei hysbrydoli gan gymysgedd o artistiaid cyfoes fel Deaf Havana, Ed Sheeran, Taylor Swift, a Gabrielle Aplin. Gan gynhyrchu cerddoriaeth agos-atoch, emosiynol, ond hamddenol gyda naws pop/gwerin/roc, mae ei hystod lleisiol amryddawn a'i thalent ar gyfer ysgrifennu caneuon emosiynol, trosglwyddadwy yn creu perfformiadau byw swynol a chaneuon a fydd yn dod yn rhan o'ch diet cerddorol cyn bo hir. Bydd Frankie yn cael cwmni'r cerddor dawnus, Ruby Ravelle, sy'n dod â'i dawn ei hun i'r bwrdd gyda'i gitâr delynegol a'i threfniadau cerddorol sensitif. Mae perfformiadau'n cynnwys Gŵyl Trefynwy, How the Light Gets In – yn y Gelli Gandryll a Llundain, Gŵyl Gerdd Coleford, Swansea Fringe, Balchder y Fenni i enwi dim ond rhai.

Tobias Robertson



Dilynwch ef ar Facebook: www.facebook.com/tobiasofficial

Dolen i'w gerddoriaeth:

www.youtube.com/watch?v=BR1Ob4PaUIE

Mae Tobias yn artist annibynnol talentog canu'r enaid/gwerin o Gymru, a pherfformiodd ar raglan y BBC, The Voice UK, yn ôl yn 2016. Roedd Tobias yn arfer perfformio i waliau ei ystafell wely yn unig nes i'w ffrindiau wneud iddo sylweddoli pa mor dda ydoedd. Heb sôn am ei hen fodryb dalentog, Cilla Black, y mae'n ei gweld yn gymaint o ysbrydoliaeth.

Moonstorm (Deuawd)



Dilynwch nhw ar Facebook: www.facebook.com/Moonstorm-106306968338590

Dolen i'w cerddoriaeth: **www.facebook.com/Moonstorm-106306968338590/videos/538630073937921**

Y deuawd, Moonstorm, yw Amanda Seed ar y llais/gitâr a Viv Lock ar y prif gitâr, ac maen nhw'n cynnig profiad roc o gerddoriaeth fyw gan chwarae caneuon o'r chwedegau hyd at heddiw gan gynnwys Tom Petty, Heart, AC/DC, Dua Lipa, Fleetwood Mac, Queen, Neil Young a mwy. Bydd y set hon yn set acwstig sy'n cynnwys ochr ysgafnach roc.

Mansel Davies



Dilynwch ef ar Facebook: www.facebook.com/ManselDaviesAcousticSessions

Dolen i'w gerddoriaeth:

www.facebook.com/watch/live/?ref=watch_permalink&v=288528578875801

Yn dod o Aberystwyth, mae'r canwr/cyfansoddwr, Mansel Davies, wedi bod yn berfformiwr unigol ac wedi gweithio mewn bandiau ers degawdau. Mae'n ysgrifennu caneuon am ei wreiddiau Cymreig, ac yn canu caneuon pobl eraill y gallwch chi gydganu â nhw! Yng Ngŵyl y Caws Bach, bydd yn chwarae fel perfformiwr unigol: gitâr a llais.

Richard Robling



Dilynwch ef ar Facebook:
<https://www.facebook.com/richard.robbling.9>

Dolen i'w gerddoriaeth:
www.youtube.com/watch?v=oYvKrWKXmOs

Mae Richard Robling yn ganwr/cyfansoddwr caneuon, yn gitarydd ac yn gitarydd bas, mewn gyrfa gerddorol hir. Fel edmygydd o gyfansoddwyr caneuon gwyd o bob genre, mae set Richard yn amrywiol ac wedi'i chynllunio i blesio cymaint o bobl â phosibl. Bydd caneuon gan faledwyr mawr y pedwardegau a'r pumdegau, caneuon 'skiffing' o'r pumdegau, ffefrynnau'r chwedegau, gan gynnwys y sin werin, hyd at heddiw, ac un neu ddau o ganeuon gwreiddiol.

Andy & Gos



Dilynwch nhw ar Facebook: www.facebook.com/andyandgos

Mae Andy & Gos yn ddau gerddor gwych sy'n defnyddio eu doniau cyfunol i ddatblygu sain band llawn: ond sut? Dim ond dau ohonyn nhw sydd! Mae perfformiad Andy yn cynnwys lleisiau, gitâr, a 'loop pedal', ac mae Gos yn canu'r piano a harmonica ac yn canu harmonïau a rhai caneuon. Gallwch chi ddisgwyl ystod eang o ganeuon o'r saithdegau hyd at heddiw, gyda hiwmor braf. Ond pam mae Gos yn gwisgo un esgid yn unig?

The Blues Sisters



Dilynwch nhw ar Facebook: **www.facebook.com/sistersblues**

Dolen i'w cerddoriaeth: www.youtube.com/watch?v=POEpiaCJ8SA

Oherwydd galw mawr, daeth y band hwn yn ôl at ei gilydd yn 2018 ar ôl bwlch o ddwy flynedd! Band saith darn unigryw gyda harmonïau benywaidd 3 rhan yw The Blues Sister, a byddan nhw'n canu caneuon 'Swing', R-n-B a roc a rôl o'r pumdegau, ochr yn ochr â chaneuon 'Rockabilly' gyda thro modern (ala Imelda May), gydag ychydig o ganeuon gwreiddiol yn cael eu taflu i mewn. Byddan nhw'n sicr o wneud i chi ddechrau tapio bysedd eich traed chi o'r gân gyntaf!

Nerys and the Soul Traders

Dilynwch **nhw** ar Facebook:



www.facebook.com/nerysandthesoultraders

Dolen i'w cerddoriaeth:

www.facebook.com/nerysandthesoultraders/videos/?ref=page_interna

Mae Nerys and the Soul Traders yn canu miwsig yr enaid ac R-n-B o'r chwedegau. Gyda rheng flaen o dri chorn a 'riffs' pwerus sy'n cael eu chwarae gydag enaid ac angerdd, byddwch chi'n siŵr o feddwl eich bod chi yn Muscle Shoals, Alabama. Ond mae'r allwedd yn yr new; mae'n ymwneud â Nerys a'r ffordd y mae hi'n gallu dehongli cân a cynhyrfu cynulleidfya gyda ffefrynnau fel "Shout!" a "What A Man. Ewch i'w gweld nhw a gwneud parti o'r perfformiad.

This River



Dilynwch nhw ar Facebook: www.facebook.com/profile.php?id=100057404652001

Dolen i'w cerddoriaeth:

www.youtube.com/watch?v=hZXm9tNUHiM

Mae'r This River yn fand 3 darn dwyieithog o Gwm Tawe. Mae'r triawd wedi bod gyda'i gilydd ers 15 mlynedd yn perfformio mewn digwyddiadau, lleoliadau, a gwyliau ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys amrywiaeth o berfformiadau ar y teledu a'r radio. Maen nhw hefyd wedi recordio 4 albwm gwreiddiol.



Buck Shizz

Dilynwch nhw ar Facebook:

<https://www.facebook.com/profile.php?id=100076174761603>

Dolen i'w cerddoriaeth:

<https://www.facebook.com/profile.php?id=100076174761603&sk=videos>

Buck Shizz yw Simon Buck (llais/gitâr) a Shirani James (sacs/ffliwt/clarinét). Yng Ngŵyl y Caws Bach, byddan nhw'n perfformio fel band pedwar darn, er mwyn eich swyno chi ac er mwyn eich llawenydd chi! Maen nhw'n canu caneuon o nifer fawr o genres cerddorol i gyd-fynd â naws yr awyrgylch, o roc i bop, o fiwsig yr enaid i ska, ffync, blues a jazz, a phopeth yn y canol!

VHS Band



Dilynwch nhw ar Facebook:

<https://www.facebook.com/thevhsband>

Dolen i'w cerddoriaeth: https://www.facebook.com/thevhsband/videos/?ref=page_internal

Mae VHS yn fand gyda sioe fyw ragorol sy'n sicr o'ch swyno chi, eich teulu, a'ch ffrindiau o'r cychwyn cyntaf. Fydd gennych chi ddim esgus i beidio â chymryd rhan – mae pob trac yn anthem ar frig y siartiau! Mae aelodau'r band wedi cyrraedd siart y 40 sengl uchaf, wedi chwarae ar Top of the Pops ac MTV, wedi cael eu darlledu ar BBC Radio 1, 2 a 6 Music ac wedi teithio mewn arenâu ledled yr Unol Daleithiau ac Ewrop gan gefnogi bandiau gan gynnwys The Killers, Stereophonics, Snow Patrol, Keane, Ash a The Smashing Pumpkins. VHS yw'r band priodas roc sy'n chwarae'r clasuron indie gorau gyda gwahaniaeth!

Pyramid



Dilynwch nhw ar Facebook:

www.facebook.com/pyramidcoverband

Dolen i'w cerddoriaeth:

www.facebook.com/watch/?v=872050216560020

Band tri darn o Gaerllion yw Pyramid, ac maen nhw'n canu caneuon o'r 60au hyd at heddiw. Mae'r band yn chwarae ffefrynnau gan nifer amrywiol o artistiaid fel The Beatles, Bruce Springsteen, Queen, a The Killers i enwi ond ychydig. Mae eu harmonïau 3-rhan a'r ffaith eu bod nhw'n perfformio caneuon sydd ddim, fel arfer, yn cael sylw gan y rhan fwyaf o fandiau yn eu neilltuo nhw rhag bandiau eraill. Mae Pyramid yn perfformio mewn nifer o leoliadau ar gylchdaith gerddoriaeth yn ne Cymru ac maen nhw wir yn edrych ymlaen at berfformio yn yr ŵyl eleni!

Moon Storm Band



Dilynwch nhw ar Facebook:
www.facebook.com/Moonstorm-106306968338590

Dolen i'w cerddoriaeth:

www.facebook.com/Moonstorm-106306968338590/videos/538630073937921

Band roc 5-darn yw Moonstorm sy'n cynnwys Amanda Seed (llais/gitâr) a Viv Lock (prif gitâr). Profiad cerddoriaeth fyw roc ydyn nhw ac maen nhw'n canu caneuon poblogaidd o'r chwedegau hyd at heddiw gan gynnwys caneuon gan Tom Petty, Heart, AC/DC, Dua Lipa, Fleetwood Mac, Queen, Neil Young a mwy.

Cakehole Presley



Dilynwch nhw ar Facebook: <https://www.facebook.com/CakeholePresley>

Music

Dolen i'w cerddoriaeth: <https://open.spotify.com/album/2PBIfNkv2uwxkq6nuSYMAu>

Mae Cakehole Presley yn cynnig rhythmau gitâr bas pyncaidd di-baid mewn modd Americanaidd ysgafn. O'r safbwynt hwnnw, mae Cakehole Presley wedi'ch dal chi'n lle maen nhw eisiau i chi fod, yn drifftio i ffwrdd mewn seinwedd wedi'i saernïo'n hyfryd, yn llawn syndod sonig. Caneuon rydych chi eisiau clywed mwy ohonyn nhw. Eithaf perffaith!

The Apple Tree Theory



Dilynwch nhw ar Facebook: www.facebook.com/theappletreetheory

Dolen i'w cerddoriaeth: www.facebook.com/theappletreetheory/videos

Yn dod o Gasnewydd, de Cymru, mae **The Apple Tree Theory** yn uno cymysgedd eclecticig o gerddoriaeth gwlad a gwerin, Reggae a chanu gwerin gan greu profiad deinamig a fydd yn llenwi'r llawr dawnsio. Mae'r bechgyn yn cyflwyno amrywiaeth o glasuron diamser fel nad ydych chi erioed wedi'u clywed nhw o'r blaen. Mae'r cyfuniad unigryw hwn o ganu'r Tir Glas, Reggae, a chanu gwerin yn brofiad band acwstig na ddylech chi ei golli! Maen nhw'n gasgliad gwirioneddol ryfeddol o gerddorion a chantorion, i gyd yn llawn carisma a dawn, sydd wedi profi eu hunain yn rym cyffrous sy'n gallu llenwi'r llawr dawnsio!